Waldo Goronwy Williams, 1904–71
Bardd, emynydd a heddychwr

Un funud fach cyn 'r elo'r haul i'w orwel,
Un funud fwyn cyn delo'r hwyr i'w hynt,
I gofio am y pethau anghofiedig
Ar goll yn awr yn llwch yr amser gynt.

Waldo Williams

Ganwyd Waldo yn un o bump o blant ar 30 Medi 1904 yn Hwlffordd, Penfro, lle roedd ei dad, John Williams, yn brifathro ar Ysgol Gynradd Prendergast. Pan oedd yn saith oed symudodd y teulu i ardal wledig Mynachlog-ddu. Magwyd ei fam Angharad yn Lloegr, ac er iddi ddysgu Cymraeg yn ddiweddarach, Saesneg oedd iaith yr aelwyd ac addysg, ond y Gymraeg oedd iaith y capel a'r gymuned. Bryd hynny roedd Mynachlog-ddu yn ardal gwbl Gymraeg ac yno y dysgodd Waldo siarad yr iaith. Ym 1915 symudasant i Landysilio lle y mynychent gapel Bedyddwyr Blaenconin, ac yno y bedyddiwyd Waldo.

Yr oedd y cartref yn un diwylliedig. Yr oedd ei dad yn sosialydd brwd a ymddiddorai mewn gwleidyddiaeth. Deuai'r *Genhinen* a'r papurau enwadol i'r tŷ ynghyn â chylchgrawn yr heddychwyr Cymraeg, *Y Deyrnas*, gan fod ei rieni'n heddychwyr o argyhoeddiad. Dechreuodd Waldo farddoni pan oedd yn fachgen ifanc.

Wedi iddo orffen yn Ysgol Ramadeg Arberth ym 1923 aeth Waldo i Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, gan raddio mewn Saesneg ym 1926, ac yna arhosodd am flwyddyn arall i ddilyn cwrs Addysg. Trwy gydol y tridegau bu'n athro yn sir Benfro, ac yn gynnar ym 1942 priododd â Linda Llewellyn. Yn yr un flwyddyn fe ymddangosodd o flaen tribiwnlys yng Nghaerfyrddin fel gwrthwynebydd cydwybodol, ac arweiniodd ei safiad at wrthdaro gyda'r awdurdod addysg. O ganlyniad derbyniodd swydd yn Ysgol Ramadeg Botwnnog yn Llŷn. Cafodd ergyd drom ym 1943 pan fu

farw ei briod yn dilyn gwaeledd byr. Y flwyddyn ddilynol penderfynodd ehangu ei orwelion ac aeth yn athro i Kimbolton, swydd Huntingdon, lle y bu hyd 1946 pryd y symudodd i Lyneham, Wiltshire. Ym mis Tachwedd yr un flwyddyn cyhoeddodd llywodraeth Prydain ei bwriad i feddiannu 16,000 o erwau o dir y Preseli er mwyn eu troi yn faes ymarfer i'r fyddin.

Bygythid troi allan 85 o aelodau capel Bedyddwyr Mynachlog-ddu a chau yr ysgol lle bu ei dad yn brifathro. Cododd ymgyrch gref yn erbyn y cynlluniau a llwyddwyd i'w rhwystro. Cafodd y digwyddiad hwn ddylanwad dwfn ar Waldo ac fe'i hadlewyrchir yn nifer o'i gerddi, megis 'Cwmwl Haf' a 'Chymru'n Un'. Ym 1950 dychwelodd i Gymru i fod yn athro yn sir Frycheiniog ond ni fu yno'n hir oherwydd y rhyfel yng Nghorea. Teimlai'n flin ac yn euog oherwydd yr hyn a wnaed yno gan y fyddin â'r arfau a brynwyd â'i drethi ef, a gwrthwynebai wasanaeth milwrol gorfodol hefyd. Penderfynodd wrthod talu ei drethi ac ymddiswyddodd o'i waith. Atafaelodd yr awdurdodau ei eiddo ac ym 1963 fe'i bwriwyd i'r carchar am chwe wythnos.

Penderfynodd ym 1953 y byddai'n ymaelodi â Chymdeithas y Cyfeillion oherwydd ei phwyslais ar heddwch. Ym 1959 safodd mewn etholiad cyffredinol fel ymgeisydd seneddol ar ran y Blaid Genedlaethol yn sir Benfro. Enillodd 2,250 o bleidleisiau ond ni safodd eto oherwydd nad oedd yn gyffyrddus fel gwleidydd. O 1963 ymlaen bu'n athro Cymraeg ail-iaith yn Noc Penfro, Abergwaun a Gwdig. Ysgrifennodd lawer o farddoniaeth, erthyglau ac adolygiadau, a'i gyfrol enwocaf o farddoniaeth oedd *Dail Pren*. Bu farw ym mis Mai 1970.